Datgelu hanes pell Dartmoor: Ailgreadau realiti rhithwir sy'n manteisio ar arolygon digidol tanddwr ac o'r awyr

Robert J. Stone, Cheng Qian a Christopher Bibb: Y tîm Technoleg Rhyngwynebau Dynol, Prifysgol Birmingham

Fel yn achos llawer o dirweddau mawr a digroeso ledled y DU, mae safleoedd ac arteffactau hanesyddol mwyaf gwerthfawr Dartmoor i'w cael mewn lleoliadau anghysbell – a pheryglus yn aml. Mae datblygiadau diweddar yn y defnydd o ddronau a systemau morol awtonomaidd wedi chwyldroi'r broses o ddatblygu mewn amser byr fodelau Realiti Rhithwir a Realiti Estynedig manwl a geo-gywir o leoliadau o'r fath.



Cwch arwyneb awtonomaidd a chwadcopter *Inspire*.

Yna gellir defnyddio'r canlyniadau i godi ymwybyddiaeth ymwelwyr a myfyrwyr o bob oed drwy ddarparu profiadau rhyngweithiol diddorol ac addysgol. O chwilio am safleoedd peryglus fel corsydd lle y daeth awyrennau i lawr yn yr Ail Ryfel Byd i fapio tanddwr mewn dyffrynnoedd boddedig, ac o ail-greu'n fanwl mewn 3D olion adeiladau hanesyddol i fapio safleoedd mwyngloddio mawr a hanesyddol bwysig, bydd y papur hwn yn disgrifio detholiad o astudiaethau achos diweddar a'r gwersi a ddysgwyd.

Olion mwynglawdd tun Whiteworks yn Foxtor Mire (llun wedi'i dynnu gan ddrôn).

Gwely cronfa ddŵr Burrator: sgan sonar wedi'i drawsnewid yn ddelwedd Realiti Rhithwir.